# CLINIGAU DIAGNOSIS CYFLYM

## CIPOLWG AR GANFYDDIADAU GWERTHUSIAD 2020-2023

GIG CYMRU NHS WALES | Rhwydwaith Canser Cancer Network

## TROSOLWG

Mae gan gyfran fawr o bobl symptomau amwys nad ydynt yn awgrymu ar unwaith canser mewn safle tiwmor penodol, felly maent yn aml yn cael sawl atgyfeiriad gan feddygon teulu ar gyfer profion ac archwiliadau, weithiau'n dilyn llwybrau canser amhriodol.

Mae Clinigau Diagnosis Cyflym (RDCs) yn cynnig un pwynt mynediad at lwybr diagnostig i bob claf â symptomau amwys difrifol a allai fod yn achos o ganser. Nod yr RDCs yw cynnig diagnosis holistaidd, wedi'i bersonoli, cywir a chyflym o symptomau cleifion.

Dechreuodd rhaglen RDC genedlaethol Cymru gyfan ym mis Rhagfyr 2020. Cafodd ei hariannu a'i goruchwylio gan Rwydwaith Canser Cymru mewn cydweithrediad â holl Fyrddau Iechyd Cymru a chyrff cenedlaethol eraill gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gwelliant Cymru ac ati.







**Yn 2023, fe wnaeth RDCs mewn partneriaeth â Rhwydwaith Canser Cymru ennill Gwobr GIG Cymru am ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth ar draws GIG Cymru.**



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



**2,706**

o atgyfeiriadau yn 2022/23

→

**82%**

Derbyniwyd gan RDCs



## CANRAN Y CLEIFION A WELWYD






o fewn 7 diwrnod a llai
o fewn 8-14 diwrnod
ar ôl 14 diwrnod

Cyfnod: Ch1 22/23 – Ch1 23/24. Efallai y bydd y ffigurau yn dod i gyfanswm o fwy na 100% oherwydd problem talgrynnu.

# Cyfradd cadarnhau canser




35% dim diagnosis, atgyfeiriwyd yn ôl i'r meddyg teulu

23% diagnosis nad yw'n ganser, atgyfeiriwyd yn ôl i'r meddyg teulu

2% ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth

34% diagnosis arwyddocaol nad yw'n ganser, atgyfeiriwyd i dimau gofal eilaidd eraill

Cyfnod: Ch1 22/23 – Ch1 23/24. Efallai y bydd y ffigurau yn dod i gyfanswm o fwy na 100% oherwydd problem talgrynnu.

## CYFRAN (O ATGYFEIRIADAU A DDERBYNIWYD) Y CLEIFION NAD OEDDENT YN GALLU MYNYCHU AR UNRHYW ADEG

| RDCs | Cymru gyfan |
|---|---|
| 4.1% | 7.7% |

Cyfnod: Ch1 22/23 – Ch1 23/24, o'i gymharu â chyfradd ni fynychwyd 2018/19 mewn gwasanaethau cleifion allanol ledled Cymru

*"Roedd y broses a'r gofal yn ardderchog a chafodd cyflymder y diagnosis wared ar yr holl straen ac ofn sy'n gysylltiedig pan fyddwch chi'n gofidio mai canser fydd y diagnosis." – Claf*



# LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

**Mae chwe Bwrdd Iechyd wedi gweithredu gwasanaeth RDC ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae cytundebau ar waith i gleifion o Bowys gael eu hatgyfeirio i RDCs a weithredir gan Fyrddau Iechyd cyfagos.**



**Adroddwyd lefel uchel o foddhad yn eu swyddi gan staff RDC**

**Gwell cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd**

**Ymwybyddiaeth gynyddol o RDC a pherthynas weithio well rhwng tîm yr RDC a thimau gofal eilaidd eraill**

**Gwell cydweithredu a rhwydweithio rhwng Byrddau Iechyd a rhwng timau RDC**

**Profwyd y gall y model a gyfarwyddir yn genedlaethol ond a ddarperir yn lleol weithio'n effeithiol i weithredu rhaglen Cymru gyfan**

*"Mae RDC wedi dangos y gellir safoni gofal a gwasanaethau i ryw raddau rhwng y Byrddau Iechyd. Mae'n enghraifft o sut y gall cydweithredu weithio pan fydd pobl yn agored iddo." – Arweinydd Clinigol Meddyg Teulu*

# HERIAU ALLWEDDOL



**Ansawdd atgyfeiriadau anghyson sy'n gofyn am gyfathrebu ac addysg parhaus i feddygon teulu**

**Gwasanaethu cohort cynyddol o gleifion gydag adnoddau cyfyngedig presennol a all effeithio ar fodloni'r targed 7 diwrnod cenedlaethol**

**Ansicrwydd neu anhawster ynghylch sicrhau cyllid i ehangu'r gwasanaeth presennol**

**Mewnbynnau data anghyson gan Fyrddau Iechyd i gyfrannu at y dangosfwrdd cenedlaethol i helpu i asesu tegwch gwasanaethau RDC ledled Cymru**

# YSTYRIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL

- Ystyried prif-ffrydio'r gwasanaeth neu gyfleoedd i ddatblygu Hybiau Diagnostig Cymunedol yn ymgorffori RDCs i wella cynaliadwyedd y gwasanaeth
- Adolygu amcanion a chynulleidfa allweddol y dangosfwrdd cenedlaethol i gyd-fynd ag anghenion gwerthuso'r dyfodol.
- Rhwydwaith Canser Cymru i barhau i hwyluso fforymau a chyfarfodydd i alluogi croesbeillio a rhwydweithio ymhlith staff RDC
- Mwy o gyhoeddusrwydd a digwyddiadau addysgol gyda meddygon teulu ynglŷn ag RDCs, yn enwedig ymgysylltu wyneb yn wyneb, i wella ansawdd atgyfeiriadau
- Casglu gwybodaeth ddemograffig-gymdeithasol am gleifion ar draws systemau i helpu i fonitro a chynnal tegwch ac ansawdd y gwasanaeth.

Gwerthuswyd a chynhyrchwyd gan m·e·l research